# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## EDT2 03-05 (p9)

Dyddiad: 9 Chwefror 2004
Amser: 9.00 hyd 12.30
Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
Teitl: Ymweliad â Helsinki, Y Ffindir 18 – 21 Tachwedd 2004

## Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth
## Ymweliad â Helsinki, Y Ffindir 18 – 21 Tachwedd 2004

### Cefndir

Ymwelodd Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth â Helsinki i weld y ddarpariaeth gofal plant yng nghyd-destun adolygiad y Pwyllgor o anweithgarwch economaidd. Manteisiodd ar y cyfle hefyd i gael trafodaethau ymchwiliol yn sgil y ffaith y bydd cyn hir yn adolygu'r Polisi Gwyddoniaeth yng Nghymru. Trefnwyd y daith ar ran y Pwyllgor gan staff yn Llysgenhadaeth Prydain yn Helsinki a gwelir copi o'r briff a gawsant yn Atodiad 1.

Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi'n fawr iawn y gwaith sylweddol a wnaed gan staff y Llysgenhadaeth wrth drefnu'r ymweliad a hefyd amser ac ymdrech yr holl bobl a gyfarfu mewn adrannau llywodraeth a sefydliadau eraill yn Helsinki a'r cylch.

Dyma'r aelodau o'r Pwyllgor oedd ar gael ar gyfer yr ymweliad:

Chris Gwyther, Cadeirydd
Nick Bourne
Chris Chapman
Janet Davies
Lisa Francis
Brian Gibbons
Jenny Randerson

Yn y cwmni hefyd roedd clercod y Pwyllgor: John Grimes a Siân Wilkins

Roedd y Pwyllgor yn arbennig o ddiolchgar i Richard Howell a Reetta Purontakanen o Lysgenhadaeth Prydain a fu'n gyfrifol am lunio'r rhaglen a chadw cwmni i'r Pwyllgor yn ystod yr ymweliad.

# Dydd Iau 18 Tachwedd 2004

## A. Y Weinyddiaeth Materion Cymdeithasol a Iechyd

Ms Tarja Kahiluoto, Swyddog Hy^n
Ms Reija Heinola, Pennaeth Datblygu, Canolfan Genedlaethol Ymchwil a Datblygu ar gyfer Iechyd a Lles
Ms Marja-Liisa Parjanne, Cynghorydd y Gweinidog.

Nod y Weinyddiaeth Materion Cymdeithasol a Iechyd yw darparu'r canlynol ar gyfer y boblogaeth: amgylchedd iach, iechyd da a'r gallu i weithredu'n effeithiol, incwm digonol a diogelwch cymdeithasol dan amgylchiadau amrywiol bywyd.
Mae'r Weinyddiaeth yn cyfarwyddo ac yn arwain datblygiad diogelwch cymdeithasol,lles cymdeithasol a gofal iechyd a'r polisïau perthnasol. Mae hi'n diffinio prif lwybr polisïau iechyd a chymdeithasol, yn paratoi deddfwriaeth a diwygio allweddol gan lywio'r gwaith o'u rhoi mewn grym, ac yn trin a thrafod y cysylltiadau hanfodol â'r broses o benderfynu gwleidyddol .

Gwelir cyflwyniad Ms Kahiluoto yn A2 ac A3. Dywedodd fod gan rieni yn Y Ffindir hawl i ofal plant a'i bod hi'n ddyletswydd ar gynghorau er 1996 ddarparu ar ei gyfer. Nododd fod anawsterau weithiau mewn ardaloedd gwledig am fod rhieni'n gorfod teithio er mwyn canfod gofal addas ond er gwaethaf hynny daliai i fod yn hawl. Tynnodd sylw ar y ffaith fod llawer iawn o ferched Y Ffindir yn gweithio a dywedodd mai polisi'r Llywodraeth oedd cyfuno addysg a gofal mewn un gwasanaeth o'r enw 'Educare'. Cyfeiriodd at yr amrediad eang o gefnogaeth a dderbyniai'r rhieni o lwfansau mamolaeth/ tadolaeth, ac amser rhydd ar adeg y geni, hyd at lwfansau i rieni a arhosai gartref i ofalu am eu plant a darpariaeth Educare gan y cynghorau. Dywedodd fod y nifer sy'n manteisio ar y rhain yn amrywio yn ôl oed y plentyn, yn rhannol am fod rhai o'r darpariaethau, megis y lwfans gofal plant, ond ar gael nes bod y plentyn yn cyrraedd ei dair oed.

Gan droi at ddarpariaeth gofal dydd y cyngor dywedodd fod gan bob plentyn o dan oedran ysgol yr hawl i hyn unwaith y deuai cyfnod lwfans y rhieni i ben. Dibynnai'r ffioedd ar incwm y rhieni ac yn ei chyflwyniad nododd y ffioedd mwyaf a oedd yn gymwys. Soniwyd yn y cyflwyniad hefyd am y nod addysgu sydd ynghlwm wrth ofal dydd a'r ystod oed a allai fanteisio ar hyn. Dywedodd Ms Kahiluoto fod gofyn darparu hyn gydol y flwyddyn. Ceir mwy o fanylion yn y cyflwyniad.

Cyfeiriodd cyflwyniad Ms Kahiluoto hefyd at y lefel uchel o addysg a hyfforddiant oedd yn ofynnol gan y rhai sydd wrthi'n gwneud tasgau gofalu ac addysgu. Dywedodd mai merched oedd y rhain ar y cyfan ac roedd y lefelau staffio'n gymharol sefydlog er bod peth defnydd o gontractau byrion yn ystod yr haf.

Mae cyflwyniad Ms Heinola yn A4. Soniodd am y bobl sy'n derbyn lwfansau gofal anffurfiol am edrych ar ôl pobl 65 oed a throsodd. Yn fras, roedd 43% o'r gofalwyr yn briod â'r sawl a dderbyniai'r gofal ac roedd 22% yn blant. Roedd mwyafrif y rhain mewn oed gweithio er bod mwy na'u hanner mewn gwirionedd yn derbyn pensiwn – hyn yn adlewyrchu'n rhannol y ffaith bod nifer o bobl wedi ymddeol,

oherwydd diweithdra strwythurol, cyn cyrraedd oedran derbyn pensiwn y wlad.

Y prif reswm bod angen help ar y rhai dros 75 oedd yn rhannol, eu hangen am gynhaliaeth seicolegol ac emosiynol ond roedd galw hefyd am gymorth gyda’r gwaith t, mân drwsio, negesa, mynd i’r banc neu i’r ysbyty. Fodd bynnag, ni cheid yn Y Ffindir unrhyw drefn a ganiatâi amser rhydd i bobl oddi wrth eu gwaith i ofalu am rieni claf.

Enwodd Ms Heinola, fel problemau neilltuol, y diffyg darpariaeth ar gyfer rhoi ysbaid dros dro i’r gofalwyr ac ansawdd gwael y ddarpariaeth honno. Tueddai pobl i ffafrio gwneud trefniadau anffurfiol ar gyfer hyn.

Pan ofynnwyd iddi sut y mae asesu cymhwyster ar gyfer y lwfansau hyn dywedodd Ms Heinola fod hynny’n anodd iawn ac yn amrywio ymhlith y gwahanol gynghorau. Ychwanegodd nad oedd hyn , yn wahanol i ddarpariaeth gofal plant, yn orfodaeth statudol ac nid oedd pob cyngor yn darparu ar ei gyfer.

Gwelir cyflwyniad Marja-Liisa Parjanne yn A6. Cyflwynodd ffigyrau ar y gyfradd gyflogaeth yn ôl rhyw yn Y Ffindir. Nododd fod y cyfraddau benywaidd a gwrywaidd ar y cyfan yn debyg. Fodd bynnag, roedd tuedd i fwy o ferched weithio yn y Sector Cyhoeddus. Roedd y ffigyrau’n gostwng ychydig yn achos merched o oed magu plant ond tueddent hwythau i ddychwelyd i’r gwaith wedyn. Wrth ateb cwestiwn, dywedodd fod ymgyrchoedd i gynnwys dynion yn fwy wrth fagu plant. Dangosodd y ffigyrau hefyd fod mwy o ferched iau yn gwneud gwaith dros dro.

Hefyd, cyflwynodd Ms Parjanne Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Y Ffindir ar gyfer Cyflogaeth – Yr Adran Cydraddoldeb Rhywiol.

Wrth ddod â’i chyflwyniad i ben, nododd fod patrymau cyfredol yn dangos bod pobl yn treulio mwy o amser nag o’r blaen ar ddechrau’u bywyd gwaith yn derbyn addysg a hyfforddiant, a mwy o amser fel cyfnod ymddeoliad lle caent y rhyddid i wneud yr hyn a fynnent. Rhagwelai ddyfodol pan fyddai’r agweddau hyn ar gael yn fwy cyson ar draws yr ystod oed ond nododd mai anodd oedd dirnad sut y gellid cyflawni hyn yn ymarferol..

## B. Y Weinyddiaeth Lafur

A hithau’n rhan o’r Llywodraeth, mae’r Weinyddiaeth Lafur yn gyfrifol am ddrafftio deddfwriaeth ac am baratoi penderfyniadau eraill y Llywodraeth a’r Senedd mewn materion sy’n ymwneud â gweinyddu llafur. Mae’r Weinyddiaeth hefyd yn datblygu ac yn cyfarwyddo gweithgarwch gweinyddu llafur ac yn gofalu am gysylltiadau rhyngwladol. Yn ychwanegol at hyn, y Weinyddiaeth, yn anad neb, sy’n gyfrifol am weithredu polisïau llafur a mewnfudo.

Mae’r Weinyddiaeth Lafur yn gyfrifol am hybu cyflogaeth ac iddi hi hefyd y perthyn gwasanaethau cyflogaeth y cyhoedd. Mae’r Weinyddiaeth hefyd yn gweithio i ddatblygu sefydliadau gwaith a bywyd y gweithiwr a threfn cytundebau ar y cyd. Yn yr un modd mae datrys anghydfodau llafur, mewnfudo,

ffoaduriaid ac ailymfudo yn rhan o gylch gorchwyl y Weinyddiaeth.

Varpu Weijola

Amlinellodd Ms Weijola strwythur y Weinyddiaeth Lafur a gyflogai, meddai, 340 o bobl yn ganolog ac a oedd yn gyfrifol am 147 o swyddfeydd gwaith ar draws Y Ffindir. Roedd 6,000 o bobl yn gweithio yn y rhain ac mewn blwyddyn byddent yn ymwneud â rhyw 810,000 o bobl yn chwilio am waith a 570,000 o bobl heb waith. Dangosodd ei chyflwyniad (B1) fod gan y Ffindir gyfraddau diweithdra cymharol uchel a thargedau uwch na chyfartaledd yr UE yn gyffredinol ac ar gyfer merched. Roeddent hefyd yn gwneud yn well ar gyfer pobl 55 – 64 oed gan eu bod ond ychydig o dan eu targed, ac roeddent ond ychydig bach o dan darged yr UE ar gyfer 2010. Roedd diweithdra ymhlith dynion ychydig yn uwch na chyfartaledd yr UE ond roedd diweithdra ymhlith merched ychydig yn is. Eu targed, fodd bynnag, oedd gostwng hyn i tua hanner y lefel bresennol.

Soniodd Ms Weijola am lefelau cymhwyster a dweud bod canran y rhain yn gostwng yn y grwpiau hy^n, ffaith a olygai ei bod hi’n anos ailsefydlu’r bobl hyn mewn gwaith.

Wrth orffen ei chyflwyniad, siaradodd am y gwaith yr oeddent yn ei wneud ar wasanaethau datblygiad galwedigaethol ac roedd hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth, hyfforddiant mewn cynllunio gyrfa ac ailsefydlu galwedigaethol. Darparodd gopi o adroddiad (B3) oedd yn rhoi trosolwg ar wasanaethau datblygiad galwedigaethol.

Yn y drafodaeth, dywedodd Ms Weijola fod gan y llywodraeth ddiddordeb mewn datblygu sgiliau’r entrepreneur ac roeddent wedi lawnsio rhaglen bwysig i’w hybu drwy’r wlad. Dywedodd fod pobl yn barod i fod yn hunan-gyflogedig ond roeddent yn llai awyddus i symud ymlaen gan ddatblygu busnes sy’n cyflogi pobl eraill.

Dywedodd fod cred gyffredinol bod y sector gwasanaeth heb ei ddatblygu’n llawn ac y gallai pobl nad oeddent yn cymryd rhan mewn rhaglenni ailsefydlu galwedigaethol golli’u budd-daliadau yn y pen draw.

Cynigid hwb ariannol i gwmnïau fyddai’n cyflogi pobl a fu allan o waith am gyfnod hir ond, yn gyffredinol, nid oedd cyflogwyr yn croesawu’r math hwnnw o weithwyr hyd yn oed yng nghyd-destun yr hwb ariannol.

Ni wyddai Ms Weijola am unrhyw gymhelliant i dynnu buddsoddiad symudol i ardaloedd neilltuol, ond dywedodd eu bod yn ceisio canolbwyntio hyfforddiant mewn ardal ar sail amcangyfrif y gofynion o ran sgiliau i’r dyfodol. Dywedodd y byddai swyddfa gyflogi leol yn cael ei sefydlu mewn ardal pan fyddai ffatri yno’n cau ond dyna’r prif gymelliannau neilltuol eu lleoliad y gwyddai amdanynt.

O ran y gwahaniaeth cyflog rhwng dynion a merched, nodwyd bod hyn yn fwy yn y sector cyhoeddus nag yn y sector preifat, yn groes i sefyllfa’r DU. Dywedodd Ms Weijola fod mwy o duedd yn y Ffindir i

gyflogwyr preifat, yn enwedig yn y sector gwasanaeth, gyflogi merched er nad oedd y cyflog yn uchel iawn.

Roedd dirwasgiad y 1990au, a oedd wedi effeithio'n drwm ar ardaloedd gwledig a threfi bychain, yn ddigwyddiad allweddol. Daethai hyn yn sgil dymchweliad yr Undeb Sofietaidd ond roedd y digwyddiad hwnnw, yn ei dro, wedi agor amryw o farchnadoedd o ganlyniad i fasnach ryngwladol ehangach.

## C. Y Weinyddiaeth Trafnidiaeth a Chyfathrebu

Mae'r Weinyddiaeth Trafnidiaeth a Chyfathrebu yn gweithredu polisïau trafnidiaeth a chyfathrebu.

Mae'n paratoi Deddfau, Dyfarniadau a Phenderfyniadau a wneir yn y Senedd, mewn sesiynau Arlywyddol Cyngor y Wlad (y Llywodraeth) ac yng Nghyngor y Wlad ei hun. Mae'r weinyddiaeth hefyd yn cyhoeddi Dyfarniadau Gweinidogion ac yn datgan ei phenderfyniadau'i hun.

Yn rhan o'i chylch gorchwyl, mae'r Weinyddiaeth Trafnidiaeth a Chyfathrebu yn paratoi fframwaith cyllidebol yn ogystal â chynigiad cyllidebol blynyddol, strategaeth weithredu a chynllunio ariannol. Mae'r Weinyddiaeth hefyd yn monitro'r defnydd o'r arian a ddyrennir iddi yng nghyllideb y wlad ac yn manylu ar y defnydd hwnnw yn ei hadroddiad blynyddol. Yn ogystal â chydweithredu'n weithgar â'r UE ac yn rhyngwladol, mae cylch gorchwyl y Weinyddiaeth yn cynnwys hefyd gyfrifoldeb am bolisi perchnogaeth cwmnïau stoc ar y cyd sydd yn eiddo i'r wlad a mentrau ym maes trafnidiaeth a chyfathrebu. Mae'r Weinyddiaeth yn monitro'u gweithgarwch ac yn mynnu'u bod yn broffidiol, yn gynhyrchiol ac yn darparu gwasanaeth da.

Harri Uusnakki, Arolygydd, Uned Cludiant Teithwyr
Antti Kalliomaki, Peiriannydd y Cyngor, Bwrdeistref Twsula

Cyflwynodd Harri Uusnakka ddau adroddiad: Gwerthusiad o Gludiant Cyhoeddus y Ffindir (C1), ac Ystadegau Perfformiad Cludiant Cyhoeddus (C2).

Dywedodd fod Cludiant Cyhoeddus yn y Ffindir ar y cyfan wedi'i drefnu'n dda a bod nifer y teithwyr yn uchel. Roedd pobl ar y cyfan yn fodlon iawn ond arhosai ambell her o hyd yn yr ardaloedd gwledig. Roedd y system yn dibynnu ar gymorthdaliadau ond roedd y rhain yn weddol fach a bu cyflwyno elfen o gystadleuaeth yn llwyddiannus iawn. Dywedodd mai un nodwedd arbennig yn y system oedd cerdyn a ganiatâi i'r deilydd deithio ar unrhyw fws yn y Ffindir heblaw am rai Helsinki. Llwyddwyd i wneud hyn drwy wneud derbyn y tocyn hwn yn amod wrth gofrestru llwybr bws.

O ran perchnogaeth, roedd y gwasanaethau awyr a rheilffordd yn eiddo i'r Wlad tra bod 95% o goetsys a phob tacsi'n eiddo preifat. Bysiau oedd y prif ddull cludiant cyhoeddus ond, yn gyffredinol, rhy ychydig o bobl a deithiai arnynt.

Wrth ateb cwestiwn ynghylch sut y llwyddwyd i sicrhau gwasanaethau da eu hansawdd, dywedodd Antti

Kalliomaki fod gan y cynghorau yn y Ffindir fwy o ryddid na rhai'r DU a'r grym i godi'u harian eu hunain drwy godi treth incwm leol yn ogystal â mwy o reolaeth dros eu gweithgareddau. Un ffactor yn y cydweithredu ehangach rhwng llywodraeth leol a llywodraeth ganol oedd y ffaith fod 143 o'r 200 o Aelodau Seneddol y Ffindir hefyd yn gynghorwyr lleol. Hefyd,byddai cynghorau lleol yn uno i ddarparu rhai gwasanaethau.

Cyflwynodd Antti Kalliomaki bapur (C3) ar System Cludiant Cyhoeddus sy'n Ymateb i'r Galw. Dywedodd fod hyn wedi bod yn fwy boddhaol yng ngolwg y teithwyr.

Yn y drafodaeth, dywedodd fod rhaid rhoi rhybudd o dair awr pan fyddai angen y gwasanaeth – gellid mewn gwirionedd ei ddarparu'n gyflymach o lawer na hynny ond teimlid bod cymryd mwy o amser i ymateb yn fwy priodol wrth reoli'r defnydd a wneir o'r gwasanaeth. Teimlai mai tuag un awr oedd y cyfnod ymateb lleiaf y gellid yn ôl pob tebyg ei gynnig, am fod unrhyw beth llai na hynny'n debygol o achosi trafferth wrth ddarparu gwasanaethau fyddai'n cyd-gysylltu.

Gofynnwyd iddo pam roedd merched yn hytrach na dynion yn ôl pob golwg yn ffafrio'r gwasanaeth, ac awgrymodd Mr Kalliomaki y gallai hynny fod oherwydd mai'r dyn fel arfer fyddai'n defnyddio fwyaf ar gar y teulu. Roedd y system CCYG felly'n cynnig rhyddid a hyblygrwydd i fenywod.

Wrth ateb cwestiwn, cadarnhaodd fod peth gelyniaeth tuag at y gwasanaeth o du'r cwmnïau bysiau gan ei fod yn cystadlu'n uniongyrchol â nhw..

### Gyda'r nos

Gyda'r nos, gwahoddwyd aelodau'r pwyllgor i ginio gyda Matthew Kirk, Llysgennad E M i'r Ffindir , a chyd-weithwyr o Lysgenhadaeth y DU yn Helsinki.

## Dydd Gwener 19 Tachwedd 2004

### D. Kindergarten 24 awr Takatasku, Malmi

Malla Anttila – (ni chafwyd teitl ond hyhi yn amlwg oedd yn gyfrifol am y kindergarten)

Ymwelodd y Pwyllgor a'r ganolfan gofal-dydd hon y gellir gweld manylion amdani yn y nodiadau a gafwyd ganddynt yn Atodiad N. Dywedodd Ms Anttila i'r ganolfan gael ei sefydlu yn 1991 gyda thua 15 o blant a bellach roedd 83. Roedd gwasanaethau'r ganolfan ar gael i bobl oedd yn gweithio shifftiau megis staff ysbytai, bwytai, meysydd awyr ayb. ac roedd yn rhaid i'r rhieni egluro pam roedd angen gofal 24 awr. Pe bai'r rhieni'n newid swydd byddai'n rhaid i'r plant fynd at ddarparwr gofal-dydd arall.

Eglurodd Ms Anttila y strwythur staffio a'r ffordd y rhennid y plant yn bedwar grw^p yn ôl eu hoed. Soniodd sut yr oedd hi'n bosibl darparu ar gyfer patrwm mynychu hyblyg ac amrywiol, ar gyfer pobl na weithient oriau cyson, a dywedodd y gallai digwydd yn achlysurol fod plentyn yn aros yno am gymaint

â diwrnod a hanner. Pan fyddai'r patrwm shifft yn gofyn am hynny. Yn gyffredinol, fodd bynnag, byddai rhieni'n gweld eu plant bob dydd. Nodwyd y gallai'r math hwn ar batrwm anghyson olygu na oedd unrhyw ddilyniant gan y plentyn o ran gofalwr. Dywedodd Ms Anttila eu bod yn hollol hyblyg yn y gwasanaeth a ddarperid.

Yn achos rhai teuluoedd lle byddai'r plentyn, oni bai am y ganolfan, yn gorfod mynd o'r naill berthynas at y llall, roedd y ganolfan yn darparu rhywfaint o ddilyniant yn y gofal. Gallai hyn olygu cysylltiadau gwell o fewn y teulu.

Roedd y ganolfan yn barod i roi meddyginiaeth i'r plant pan fyddai angen hynny ond roedd tuedd iddynt beidio â derbyn plant ag anghenion meddygol eithaf dwys.

Gyda'r math yma ar ofal plant roedd gofyn am gadw cofnodion gofalus fel bod staff y naill gyfnod yn gwybod yn hollol am ddigwyddiadau'r cyfnod blaenorol. Roedd hi'n bwysig hefyd gynnal cyfarfodydd tîm yn gyson a chyfarfodydd cyson â'r rhieni er mwyn deall anghenion y plentyn ac i drafod cynnydd y plentyn gyda nhw.

Nid oedd ystafell ar wahân i bob plentyn gan fod eu goruchwylio nhw mewn un ystafell fawr yn fwy addas, ond roedd gan bob un ei wely ei hun. Dywedodd Ms Anttila eu bod yn ceisio bod mor hyblyg â phosibl pan fyddai shifftiau'r rhieni'n newid ar fyr rybudd a chytunodd y gallai hyn weithiau roi cryn bwysau ar y ganolfan. Dibynnai datrys y broblem ar barodrwydd y staff i fod yn hyblyg gan gydweithredu cymaint â phosibl.

Telid ffioedd y ganolfan yn ôl prawf modd gyda'r lefel uchaf yn €200 y mis, yr un fath â'r gyfradd gofal-dydd arferol. Roedd telerau gostyngol ar gyfer y rhieni nad oeddent yn defnyddio cymaint ar y ganolfan. Roedd y gwasanaeth yn amlwg yn costio mwy na gofal-dydd arferol a'r Llywodraeth oedd yn talu'r gwahaniaeth.

Ar ddiwedd y cyfarfod, cyflwynodd Ms Anttila lyfr ar Helsinki i'r Cadeirydd a llun o waith un o'r plant mewn ffrâm.

## E. Y Weinyddiaeth Masnach a Diwydiant

A hithau'n arbenigwr ym maes polisi amgylchedd busnes, mae'r Weinyddiaeth Masnach a Diwydiant yn chwarae rôl allweddol wrth wneud penderfyniadau ynghylch polisïau economaidd. Prif swyddogaeth y Weinyddiaeth yw gwella cystadleurwydd bywyd busnes ac amgylchedd gweithredu mentrau, yn ogystal â hybu cyflogaeth mewn modd cynaliadwy.

Mae'r Weinyddiaeth yn cefnogi ymchwil a datblygu cynnyrch, yn ogystal â defnydd cynhyrchiol o'r dechnoleg newydd.

Mae'r Weinyddiaeth yn ceisio sicrhau cyflenwad o ynni a bod hwnnw'n cael ei ddefnyddio mewn modd

effeithlon a diogel ac mewn dull cynaliadwy a chyfrifol o ran yr amgylchedd. Mae'r Weinyddiaeth yn gweithio ar gyfer cystadleuaeth effeithlon a pholisi defnyddwyr dibynadwy ac yn gofalu am fuddiannau polisi busnes y Ffindir o fewn yr Undeb Ewropeaidd Union.

Paula M A Nybergh, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol

Rhoddodd Paula Nybergh gyflwyniad (E1) ar waith a gweithdrefn Y Weinyddiaeth Masnach a Diwydiant. Dywedodd hi fod Y Ffindir, a hithau'n wlad fechan, yn deall mai bach iawn fyddai'i chyfraniad ar y gorau mewn perthynas ag ymchwil a datblygiad byd-eang. Roedd rhaid felly iddi weithio a datblygu ar y cyd ag eraill.

Dywedodd Ms Nybergh fod gan bobl Y Ffindir draddodiad a diwylliant o weithio mewn cwmnïau mawrion a bod y Llywodraeth yn ddiweddar wedi cyflwyno rhaglen i hyrwyddo entrepreneuriaeth. Y nod oedd i hyn dreiddio i lawr at bobl mewn ysgolion.

Cyfeiriodd at Gyngor Polisi Gwyddoniaeth a Thechnoleg y Ffindir, oedd yn flaenoriaeth uchel ac a gadeirid gan y Prif Weinidog. Cyfeiriodd hefyd at y gwahanol gyrff oedd yn ymwneud â hyrwyddo torri tir newydd a'r amrywiaeth yn eu plith o rai cyhoeddus a rhai preifat. Dywedodd nad am ddatblygu 'technoleg' y byddid yn sôn bellach ond am 'dorri tir newydd'. Roedd hyn yn cynnwys yr angen am ddatblygu sgiliau busnes a'r gallu i ddatblygu a chynhyrchu pethau arloesol.

Yn y drafodaeth, Dywedodd Ms Nybergh fod y Llywodraeth yn ceisio cydweithio'n agos â chyrff eraill megis Undebau Llafur. Hefyd, gweithiai gwahanol Adrannau'r Llywodraeth yn agos iawn gyda'i gilydd ac yn ôl pob golwg ni cheid yn eu plith y math o feddylfryd seilo a welid weithiau.

Gofynnwyd sut y gellid mynd ymlaen â syniad arloesol ac awgrymodd Ms Nybergh y gellid dechrau efallai trwy ganolfan Tekes a gynigiai rwydwaith o gefnogaeth a chymorth. Byddai hefyd yn cysylltu â phrifysgolion i alluogi'r unigolyn i gael cymorth i werthuso syniad a derbyn hefyd gyngor ar batentau ayb. Pwysleisiodd fod cydweithredu rhwng cyrff yn allweddol i'w llwyddiant.

Dywedodd Ms Nybergh y byddai'n fodlon trafod unrhyw gwestiynau ymhellach mewn gohebiaeth.

## F. Swyddfa Gyflogaeth Leol Porvoo (Y Weinyddiaeth Lafur)

Mikko J Viitanen
Roger Nordberg

Dywedodd Mr Viitanen fod swyddfa gyflogaeth leol Porvoo yn gweithio dros ardal o tua 70 cilomedr o'r gogledd i'r de a 50 cilomedr o'r gorllewin i'r dwyrain. Roedd yno boblogaeth o 75,500 mewn pum trefedigaeth oedd yn amrywio'n fawr o ran maint o 2,000 at 46,000. Roedd 7% o'r bobl, sef 2,718, yn ddiwaith. Roedd y swyddfa yn Porvoo yn cyflogi 27 o bobl tra cyflogai un lai yn Sipco 6. Ei chyllideb gyffredinol oedd tua €4m ac âi €1m o hynny ar gyflogau a chostau swyddfa, €1m ar addysg a €2m ar

gefnogaeth ariannol i gyflogaeth. Ni fanylodd lawer ar yr olaf ond crybwyll ei fod yn cynnwys arian ar gyfer cychwyn busnes. Fel ateb i gwestiwn ynghylch y math o fusnes a gefnogid dywedodd fod amrediad eang ohonynt ond eu bod yn fusnesau un gweithiwr. Gan gyfeirio at y newidiadau yn yr economi yn y 1990au cynnar dywedodd fod ganddynt yn 1990 ryw 500 o bobl ddiwaith ac erbyn 1994 roedd hyn wedi codi i 4,000. Roedd y rhan fwyaf o Ewrop yn cael problemau tebyg ar y pryd. Ers hynny, roedd ei ffigyrau'n dangos fod y nifer wedi gostwng i tua 2,500 erbyn 1999.

Gan gyfeirio at y camau y gellid eu cymryd i helpu pobl i mewn i gyflogaeth, nododd nad oedd hi'n bosibl gorfodi pobl i gymryd swyddi er ichi bwyso arnynt i geisio amdanynt. Ni fyddent ychwaith yn ceisio gwneud bywyd yn anodd yn y cyfeiriad hwn i bobl oedd â chyfrifoldebau gofalu.

Dywedodd, yn ystod y drafodaeth, fod daearyddiaeth yr ardal yn golygu'i bod hi'n gymharol hawdd teithio ar y briffordd rhwng Porvoo a Helsinki, ond roedd trafnidiaeth i ardaloedd eraill yn anodd i bobl nad oeddent yn gweithio'n gyson rhwng 8:00am i 4:00pm. Roedd car yn hanfodol i'r rhai fyddai â phatrwm gwaith gwahanol neu pan fyddai angen cyrchu lleoliad gofal plant. Roedd hi'n bosibl i bobl deithio'n ddyddiol rhwng Porvoo a Helsinki a gwnâi rhai pobl felly, ond ystyriai llawer fod hyn yn gostus ac yn llyncu amser ac nad oedd hyn felly'n ddewis atyniadol.

Ychydig o gyflogwyr a gynigiai gyfleustodau gofal plant ond cynigient efallai gymorth i'w cyrchu yn rhywle arall.

Darparai'r swyddfa gymorth i gyflogwyr gyfweld staff a chynorthwyo hefyd drwy gadw pobl oedd yn amlwg yn anaddas i'r swydd rhag cyrraedd y rhestr gyfweld. Dywedodd nad oedd ganddynt bolisi o geisio annog dynion i swyddi 'merched' a'i bod hi mewn gwirionedd yn anghyfreithlon i wahaniaethu yn y modd hwn.

Y prif broblem a'u hwynebai oedd prinder sgiliau priodol. Ar y cyfan,nid llythrennedd oedd yn broblem ond diweithdra hirdymor, a phroblemau'n ymwneud ag alcohol. Roedd hi'n arbennig o anodd darbwyllo pobl hy^n i ail hyfforddi er mwyn cael sgiliau newydd fyddai'n eu helpu yn ôl i fyd gwaith. Roedd y per ganddynt i ddiddymu budd-daliadau'r bobl nad oeddent yn ymdrechu'n ddigonol i gael gwaith (e.e. pobl a ai i gyfweliad a hwythau'n feddw) ond ar y cyfan gan mai'r prif broblem oed diffyg swyddi addas, nid oedd ond hyn a hyn y gallent ei wneud.

O dro i dro, gelwid ar wasanaeth seicolegwyr galwedigaethol ond roedd hyn yn bennaf er mwyn rhoi cynghorion a chanllawiau gyrfaol ac nid ar gyfer ymdopi â chyflyrau clinigol megis iselder.

## G. Innopoli 2, Parc Gwyddoniaeth, Otaniemi

Prif nod Innopoli yw gweithredu fel corff sy'n marchnata ac yn sbarduno mentro ym maes syniadau a seilir ar ymchwil a gwybodaeth - corff sy'n datblygu ac yn rhyngwladoli busnesau o gwmpas dinas Helsinki. Yn gysylltiedig ag Innopoli, mae Parc Technoleg Otaniemi yn arfer gweithgarwch dehorol deinamig yn Olartek, yn Otaniemi ac Olarinluoma. Mae Innopoli yn ei holl weithgarwch yn ceisio

cyrchu at yr un nod amlwg: creu, datblygu a rhyngwladoli cwmnïau newydd arch-dechnolegol. Gwneir rhedeg busnes yn Innopoli mor rhwydd â phosibl: cynigir digonedd o wasanaethau defnyddiol ychwanegol i'r busnesau yn ogystal â'r rhai sylfaenol. Lluniwyd gwasanaeth Spinno Innopoli'i hun a'i weithgarwch fel "tad-bedydd technolegol" er mwyn cefnogi busnesau wrth iddynt ddatblygu'n barhaus.

Ffurfir y clwstwr Innopoli gan gyrff cydweithredol canolog megis Prifysgol Technoleg Helsinki , VTT, TEKES, amryw o fuddsoddwyr cyfalaf, a chyrff sydd â'u seiliau yn Innopoli megis Sefydliad Dyfeisiadau y Ffindir, Culminatum, Finntech, a gwahanol swyddfeydd gwasanaeth ac ymgynghori. Gyda'i gilydd, mae mwy na 250 o fusnesau sydd hwythau'n ffurfio rhwydwaith cydweithredol cleient-darparwr yn gweithredu yn Innopoli ac yn y deoryddion busnes. Mae Innopoli'n arbenigo mewn anelu'i wybodaeth i gyfeiriad neilltuol, sef i gynnal camau cyntaf busnesau, ac o ganlyniad, bydd tyfiant sydyn yn aml yn nodweddu'r busnesau sydd yn Innopoli.

Maijae Hamalainen, Toimitusjohthaa, Innopoli 2
Matti Hamalainen, Darlithydd Hy^n, Rheolwr Prosiect Sefydliad Busnesau Meddalwedd a Pheirianneg a CEO a sefydlydd Codetoys

Amlinellodd Maijae Hamalainen gefndir y campws Otaniemi oedd yn gartref i 300 o gwmnïau, 15,000 o fyfyrwyr a 3,600 o weithwyr cyflogedig. Dywedodd fod Daearyddiaeth y Ffindir yn golygu bod mwyafrif technoleg y wlad wedi'i lleoli yn ardal Helsinki a mater pwysig iddynt hwy oedd a ddylid lleoli ymchwil a datblygu ar draws y wlad neu'u lleoli yn ymyl y brifddinas. Dywedodd fod y Ffindir yn ail i'r uchaf yn Ewrop o ran gwario CMC ar R&G. Dywedodd fod y mentrau Technopolis yn gallu cynnig amrywiaeth o gefnogaeth i gwmnïau newydd. Roedd 86% o fusnesau'n goroesi am dair blynedd, crëid ar gyfartaledd 3 – 5 swydd am bob busnes oedd yn cychwyn a cheid graddfa dyfu o 50%.

Siaradodd Matti Hamalainen am ei brofiadau'n cychwyn Codetoys fel sgil-ddiwydiant i waith ymchwil a wnaethai. Seiliwyd y cwmni ar Dechnoleg Adborth Deinamig Strwythuredig. Roeddent wedi cael cryn gymorth gan y datblygiad yn Technopolis. Er hynny, yn y drafodaeth eglurodd eu bod wedi gwneud llawer o waith caled yn trefnu cyfarfodydd â chwmnïau mawr ac yn sicrhau arian ar gyfer buddsoddi.

Dywedodd Mr Hamalainen fel syniad bras eu bod yn gweithio ar yr egwyddor y dylai busnes gynhyrchu tua €100,000 yr unigolyn bob blwyddyn i'w wneud yn werth chweil. Pwyslais y fenter Technopolis oedd datblygu pobl fusnes ac nid elwa'n annheg ar syniadau technolegol.

Cafwyd peth trafodaeth ar sefyllfa ariannol myfyrwyr prifysgol yn y Ffindir a oedd yn ôl pob golwg yn gyfrifol am eu hariannu nhw'u hunain. Roedd cyrsiau'n llawer hirach. Roedd nifer o resymau am hyn. Byddai nifer o fyfyrwyr yn gwneud gwasanaeth milwrol wrth gyrraedd 18 – 19 oed ac yna, yn aml, byddai blwyddyn arall yn mynd a hwythau'n sefyll arholiadau mynediad a ganolbwyntia'n bendant ar bwnc eu cwrs gradd. Roedd cyrsiau prifysgol yn fodylol a gellid eu cymryd dros gyfnod estynedig er mwyn cael gweithio ar yr un pryd. Hefyd, byddai'r rhan fwyaf o bobl y Ffindir yn anelu at astudio ar gyfer gradd meistr. At ei gilydd byddai tua 70% o fyfyrwyr yn Helsinki yn mynd ymlaen i brifysgol neu goleg polytechnig – awgrymodd Matti Hamalainen fod hynny o bosibl yn ganran rhy uchel (ond ni

fanylodd ar hynny).

## Casgliadau

Ar y cyfan, teimlai'r Pwyllgor fod yr ymweliad â Helsinki yn brofiad gwerthfawr a gwerth chweil. Cyfarfuont ag amrywiaeth o bobl a dysgu llawer am faterion sy'n ymwneud ag anweithgarwch economaidd a'r dull o fynd i'r afael â'r rhain yn y Ffindir.

Creodd yr agwedd integreiddiedig at gynorthwyo pobl gyda'u cyfrifoldebau gofalu gryn argraff ar y Pwyllgor. Roedd hyn yn cynnwys anghenion rhieni â phlant a hefyd anghenion pobl a ofalai am rieni neu berthnasau yn eu henaint. Ar gyfer y ddeubeth yma fe'n hysbyswyd bod y wlad yn darparu amrediad helaeth o wasanaethau cefnogi. Er bod angen gochel rhag cyffredinoli ar gorn yr ychydig dystiolaeth y bu'n bosibl ei chasglu yn ystod ymweliad byr, cawsom yn bendant yr argraff fod yno sector gwladwriaethol oedd yn derbyn, ac i raddau helaeth yn cyflawni, ei ddyletswydd i gefnogi unigolion. Telid am y gwasanaethau yn ôl y gallu a'r argraff a gafwyd oedd nad ystyrid cyllido yn fater hollbwysig nac ychwaith yn fater a lesteiriai'r ddarpariaeth – ond cyfaddefwyd bod hyn yn amrywio rhwng ardaloedd a bod y problemau mwyaf yn rhannau gwledig y Ffindir.

Creodd yr agwedd integreiddiedig at ofal plant argraff ar y Pwyllgor, a hefyd y ffordd yr oedd y gofal hwn yn datblygu ac yn esblygu wrth i'r plentyn dyfu. Nododd gyda diddordeb y gwasanaeth a roddid gan y kindergarten 24 awr yn Malmi a oedd yn amlwg yn cynnig gwasanaeth gwerthfawr i rieni a weithiai oriau gwrthgymdeithasol ac anghyson. Pryderai'r Aelodau ychydig fodd bynnag fod hyn o reidrwydd yn golygu y gallai plentyn ifanc gael nifer sylweddol o wahanol bobl yn ei warchod ac o ganlyniad efallai na fyddai'r perthnasau a'r cysylltiadau mor gryf ag y dylent fod.

Peth arall a greodd argraff ar y Pwyllgor oedd y gwasanaethau cludiant yn ardal Helsinki. Roedd y rhain yn sicr yn hanfodol i'w lles economaidd. Mae darparu trafnidiaeth yn amlwg yn haws yn yr ardaloedd trefol o gwmpas Helsinki ond roedd y Pwyllgor yn edmygu'r un fath y drefn cludiant cyhoeddus yn ôl y galw yn Sampo a ymddangosai'n effeithiol iawn wrth ddiwallu anghenion ardal wledig lle roedd y boblogaeth yn brin. Roedd y ddwy enghraifft yma'n dangos yn glir pa mor bwysig y mae cludiant i weithgarwch economaidd.

Wrth gloi, hoffai'r Pwyllgor ddiolch i'r holl bobl a gyfarfuont yn Helsinki a roddodd o'u hamser i rannu'u profiadau â'r Pwyllgor ac a wnaeth hynny mewn modd mor frwdfrydig. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch hefyd i staff y Llysgenhadaeth Brydeinig yn Helsinki a nododd pa bobl a chyrff y dylid eu gweld ac a wnaeth lawer o'r trefniadau ar gyfer yr ymweliad.

**Y Gwasanaeth Pwyllgor**
**Rhagfyr 2004**

# Atodiadau:

1. Briff a roddwyd i’r Swyddfa Dramor a Chymanwlad cyn yr ymweliad
2. Rhestr o’r dogfennau a dderbyniwyd
3. Manylion cyswllt:
   Gan Lysgenhadaeth y DU
   Copïau’r cardiau busnes a dderbyniwyd

## Nid yw'r atodiadau ar gael yng nghymraeg

# Annex 1

## Economic Development and Transport Committee of the National Assembly Visit to Finland

The Committee has been undertaking a Policy Review into the issues underlying the high levels of economic inactivity in Wales. (i.e. the high level of people of working age groups who are neither working nor seeking work) There is a wide range of factors which underlie this some of which are ill health, disability and lack of relevant skills. However, the issue is much more complex than this and the Committee is focusing its attention on a number of specific topics. These are:

- barriers facing people who wish to get back into work but cannot because they cannot find someone to look after their children;
- barriers facing people with commitments to caring for elderly people;
- an inability to take up jobs that are available because of a lack of suitable transport for people to get to them; and
- difficulties faced by older skilled workers whose skills have become outdated as the economy has evolved.

The Committee has already taken a range of evidence on these and recently Members have suggested that there is valuable experience in Finland of dealing with childcare issues from which Wales might usefully learn. The Committee would welcome the opportunity to explore this further and to learn about how people in Finland address these issues and their experiences in this regard.

The Committee would be interested in hearing more widely about experiences in dealing with economic inactivity in Finland – but recognises that in the limited time available for the visit this might be difficult.

The Committee is also about to launch a Review of science policy in Wales and the Chair has suggested that it might be possible, at the same time, to include in the visit some discussions on this with relevant people and bodies in Finland. The precise nature of this review has not yet been decided, but a preliminary paper considered by the Committee has suggested that the level of investment in R&D in Welsh universities is inadequate for Wales to achieve its aim of a strong knowledge-based economy.

Concern has been expressed about the lack of a coherent Government policy for the development of a science and technology sector and the development of both capital and human infrastructure. Concern has also been expressed about the balance between the low levels of investment in science, technology and engineering and relatively higher levels of investment in the commercialisation of technology.

The Committee would be interested in learning how research in Finland is co-ordinated and funded and about the way in which the businesses in Wales relate to research organisations in the country.

The Committee has 10 Members of whom 8 expect to make the visit. They will be accompanied by 2 officials.

Further information is available from: http://www.wales.gov.uk/keypubassemecondevtran/index.htm

# Annex 2

## Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth
## Ymweliad â Helsinki, Y Ffindir 18 – 21 Tachwedd 2004

| **A** | **Ministry of Social Affairs and Health** | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Programme | | |
| 2 | Presentation slides (1) | | Ms Tarja Kahiluoto |
| 3 | Slides on child Day Care Act (2) | | ?? |
| | | | |
| 4 | PowerPoint presentation | Presentation | Reija Heinola |
| 5 | Slides on who lives with whom (elderly) | | ??????? |
| | | | |
| 6 | Presentation slides (3) | | Ms Marja-Liisa Parjanne, |
| 7 | Finland’s National Action Plan for Employment 2004 | | |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8 | Family friendly policies – Finland Country Notes - Ministry of Social Affairs and Health, Family and Planning Department | Background notes | |
| 9 | Finnish Social protection in 2003 | Report | |
| 10 | Socius - (quarterly journal on social affairs and health) | Journal | |
| 11 | Early childhood Education and Care in Finland | Brochure | |
| 12 | Policy on Ageing | Brochure | |
| 13 | Finnish Family Policy | Brochure | |
| 14 | Brochure on Ministry of Social Affairs and Health and related authorities | | |
| 15 | Newsletter – Conference Report May 2004 – Daily Routine Arrangements (a project on the reconciliation of work and family life in Finland France, Italy and the Netherlands) | Report | |
| 16 | The Central Union for Child Welfare (note on functions) and Leaflet | Handout | |
| | | | |
| **B** | **Ministry of Labour** | | |
| 1 | Presentation slides | Presentation | Varpu Weijola |
| 2 | Ministry of Labour – Working Life expertise | Brochure | |
| 3 | An overview of vocational development services 2003 | Report | |
| | | | |
| **C** | **Ministry of Transport and Communications** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | An evaluation of the Finnish Public Transport system: The Role of the Ministry of Transport and Communications | Report | Harri Uusnäkki |
| 2 | Public transport performance statistics 2001 | Report | |
| 3 | PowerPoint presentation | | Antti Kaliomäki |
| 4 | From pilot to real business. Developing an economically viable multi-operator, multi-modal, multi-municipal, Demand responsive public transport service with telematics aspects | Research paper | |
| 5 | Brochure on the CONNECT project –a new European expert network focusing on Flexible Transport Services (FTS) | Brochure | |
| 6 | Leaflet in Finnish probably on Sampo, Connect - demand responsive public transport service | Leaflet | |
| 7 | CD Sampo, Connect - demand responsive public transport service NEED TO CHECK CONTENTS | CD | |
| | | | |
| **D** | **Takatasku 24 hour kindergarten, Malmi** | | |
| 1 | Background note | | Malla Anttila |
| 2 | Day care application form and note on fees | | |
| | | | |
| **E** | **Ministry of Trade and Industry** | | |
| 1 | Presentation Slides | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2 | Knowledge, Innovation and Internationalisation – Report from Science and Technology Policy Council of Finland, Helsinki 2003 | Report | Paula Nybergh |
| 3 | Ministry of Trade and Industry Annual Report 2003 | Report | |
| 4 | Finland 2004 – Focus on the Economy and Technology | Glossy brochure | |
| 5 | Ministry of Trade and Industry Finland Today | Leaflet | |
| | | | |
| **F** | **Porvoo Local Employment Office** | | |
| | no documents received | | Mikko J Viitanen<br><br>Roger Nordberg |
| **G** | **Innopoli 2, Science Park, Otaniemi** | | |
| 1 | Explore Otaniemi Map | leaflet | Maija Hämäläinen<br><br>Matti` Hämäläinen |
| 2 | Presentation from Maija Hämäläinen | None received | |

# Annex 3

## Contact details:

## a) From UK Embassy:

| | |
|---|---|
| Ministry of Social Affairs and Health<br>Noora Heinonen<br>P.O. Box 33<br>00023 GOVERNMENT, Finland<br>Tel. +358 9 160 73167<br>Email: noora.heinonen@stm.fi | Porvoo Local Employment Office<br>Mikko J Viitanen<br>Linnakoskenkatu 28 A<br>06100 Porvoo, Finland<br>Tel. +358 9 205872602<br>Email: mikko.j.viitanen@mol.fi |
| Ministry of Labour<br>Varpu Weijola<br>P.O. Box 34<br>00023 GOVERNMENT, Finland<br>Tel. +358 106048028<br>Email: varpu.weijola@mol.fi | Takatasku day care centre<br>Marina Anttila<br>P.O. Box 78793<br>00099 City of Helsinki<br>Tel. +358 9 31058401<br>Email: pk.takatasku@hel.fi |
| Ministry of Transport and Communications<br>Harri Uusnäkki<br>P.O. Box 31<br>00023 GOVERNMENT, Finland<br>Tel. +358 9 16028547<br>Email: harri.uusnakki@mintc.fi | Otaniemenkehitys Oy<br>Maija Hämäläinen<br>Innopoli 2<br>Tekniikantie 14<br>02150 Espoo, Finland<br>Tel. +358 9 25177440<br>Email: maija.hamalainen@otaniemenkehitys.fi |
| Ministy of Trade and Industry<br>Paula Nybergh<br>Technology Department<br>P.O. Box 32<br>00023 GOVERNMENT, Finland<br>Tel. +358 9 16063745<br>Email: paula.nybergh@ktm.fi | |

## b) Copies of business cards received – available in hard copy only.